

Crynodeb Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Dyddiad	Datgan Diddordeb	Presennol	Penderfyniadau a gytunwyd arnynt
6/4/21		Y Cynghorwyr Dewi Jones (Cadeirydd y cyfarfod), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)	Cytunwyd i dalu: Zoom (Bala'n talu hanner)£143.88; Cyflog y Clerc; Cyflog SAC a SW. y Fynwent (6 mis) CThEM £217.00; Viking (Ffeiliau Cofnodion + Bala) £40.79; Aelodaeth Un Llais Cymru £111.00 Cytunwyd i ychwanegu enw Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wrth lythyr Cyngor Tref Y Bala yn gwrthwynebu lleihau cyfleoedd cynghorau lleol i weithredu.
4/6/21		Y Cynghorwyr Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (Is-gadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Prys Jones, Euros Roberts, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)	Cynllun Ardal: Cytunwyd i gyfarfod i drafod a mabwysiadu'r Cynllun Ardal ar 22/6/21. Cyfleusterau: Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor ar 5/5/21 wrth y safle i drafod dyddiad agor a threfniadau glanhau, a threfniadau cau ac agor yn y cyfnod cyn i'r teclynnau talu gyrraedd. Y Fynwent: Cytunodd y Cyngor i neilltuo'r darn agosaf at y garej ar gyfer claddu llwch at y dyfodol. Asedau: Cytunwyd i baentio Pwmp y Llan. Cytunodd Rhodri Prys Jones i osod cloeon ar y biniau halen. Ariannol: Cytunwyd i dderbyn y Cysoniad Banc a'r Datganiad Cyfrifyddu ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer yr Archwilwyr. Cytunwyd i daliadau'r mis sef Cyflog y Clerc; CThEM £115.60; Llwybr Cei £2160.00 (Mae £360.00 o TAW i'w hawlio ar hwn) Cytunwyd i gynnig nawdd o £100 (o gyllid 2020-21) i Llên y Llannau.
1/6/2021		Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (Is-gadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Euros Roberts, Heledd	Cytunwyd i fynegi anfonlonrwydd efo cau'r ffordd fyny at Gynllwyd pan oedd y gwaith Dŵr yn gweithio yno Cytunwyd i anfon i ddiolch i'r Eagles am eu cymwynasgarwch ar hyd y ddeng mlynedd diwethaf, yn cyflogi glanhawr ac yn darparu defnyddiau

		<p>Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>glanhau ar eu costau eu hunain. Gwerthfawrogir eu cyfraniad i'r gymuned yn fawr iawn. Yr Adroddiad Blynyddol: cymeradwywyd y datganiadau llywodraethol ar gyfer yr Archwilydd Mewnol. Cytunwyd i dalu'r anfonebau a ddaeth i law. Derbyniwyd gweddill grant Llwybr y Cei Cytunwyd i gais y Sefydliad y Merchedam ddefnyddio maes parcio'r fynwent 25/6/21. Cytunwyd i lofnodi'r llythyr gan Gymdeithas yr Iaith am reoli'r farchnad dai a materion cynllunio. Mynediad at Garth Bach: Cytunwyd i anfon at yr Awdurdodau i fynegi fod y sefyllfa'n un rhwystredig, ac yn un sy'n dirywio. Cytunwyd i ysgrifennu at Reolwr Prosiect Llyn Tegid i fynegi na ddylid codi'r wal yn uwch er mwyn diogelu tiroedd o gwmpas y llyn</p>
6/7/21	<p>Huw Antur ac Euros Roberts ym mater 2260iii (cais am nawdd), a chan Dewi Wyn Jones ym mater 2262iii (cais cynllunio).</p>	<p>Y Cynghorwyr Dewi Jones, (Cadeirydd), Huw Antur, Rhodri Prys Jones, Euros Roberts, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Cytunwyd i fenthyl yr offer recordio ar gyfer casglu atgofion trigolion wrth i'r Hen Gapel ddathlu 150 oed ar ei ffurf bresennol. Cytunodd Heledd Jones i gadw llygad ar y cerfluniau er mai Cyngor Gwynedd sy'n eu perchen. Cytunwyd i ofyn i Adran Eiddo Cyngor Gwynedd wneud asesiad o ddiogelwch y cerfluniau rhag ofn i blant ddringo fyny'r plinth. Ariannol: derbyniwyd £30gan edf; Talwyd: Cyflog y Clerc a CThEM fel arfer ; HG Webb Designs – cynnal gwelan £150; Dŵr Cymru £49.02; Anfonebau'r toiledau £321.31 Cytunwyd i gyfrannu £500 fel man cychwyn i Gronfa'r Ardd Gymunedol.</p> <p>Ceisiadau Cynllunio: NP5/71/78B Cefn yr Odyn, Llanuwchllyn. LL23 7TL Adeiladu estyniad ochr i'w ddefnyddio fel anecs. Cymeradwywyd oherwydd mai estyniad i'r breswylfa ar gyfer defnydd teuluol ydyw. NP5/71/473B Trosi a newid defnydd cyn siop i ffurfio estyniad i'r annedd cyffiniol ynghyd ac adeiladu estyniad cefn i gysylltu ag adeilad allanol presennol (Ail-gyflwyniad) Bronant Stores / Garn, Llanuwchllyn. LL23 7TP Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i holi pa dystiolaeth sydd y bu ymgyngori lleol a bod</p>

			<p>bodlonrwydd y gymuned, fel yr honnir. Sylwyd fod drws annibynnol i Bronnant Stores ac mae pryder y bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes gwyliau, yn groes i bolisi'r Cyngor.</p> <p>NP5/71/LU481 Cais am Dystysgrif Ddefnydd Cyfreithiol (Defnydd Presennol) ar gyfer defnyddio carafán statig ar dir nesaf i annedd-dy fel anecs, a chwartil estynedig Deildre Isaf, Llanuwchllyn. LL23 7TB - Cymeradwywyd</p> <p>NP5/71/T56C Cais am estyniad i'r Eagles. Gohiriwyd trafod gan nad oedd y manylion wedi cyrraedd y wefan.</p>
12/7/2021		<p>Y Cynghorwyr Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is Gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones Euros Roberts, Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar ôl i'r Archwilwyr Mewnol wneud eu cywiriadau</p> <p>NP5/71/T56C Estyniad i'r Eagles: Cytunwyd i gymeradwyo'r cais gan ychwanegu bod Parc Cenedlaethol Eryri a'r ymgeisydd yn ystyried barn y cymdogion. Cytunwyd i ddatgan wrth Heddlu Gogledd Cymru anfonlonrwydd ar sut yr ymdriniwyd gyda'r cyhoedd adeg y ffrwydradau ar 9/7/21</p>
7/9/2021		<p>Y Cynghorwyr Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Euros Roberts, Heledd Jones, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p> <p>Ymddiheuriadau: Rhodri Prys Jones, Alwyn Roberts</p>	<p>Heddlu Gogledd Cymru: Cytunwyd i geisio cysylltu unwaith eto am ffrwydradau yng Nghynllwyd. Cytunwyd i ofyn am fanylion y cerbyd a wnaeth ddfrod i loches bws y Lôn</p> <p>Llwybrau: Cytunwyd i anfon eto at y swyddogion ar ôl i brysurdeb yr haf ddarfod.</p> <p>Ariannol: Cytunwyd i dalu Anfoneb: CCF - nwyddau'r Toiledau: £137.89 Cyfanswm taliadau Cytundebau Gorffennaf ac Awst (cyflogau a CThEM, mynwentydd, toiledau): £2262.08</p> <p>Cynllunio: Cymeradwywyd cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd presennol) i gadw gweithdy a newid defnydd tir fel canolfan trwsio a phrofi cerbydau (Defnydd B2) Erw Fron, Llanuwchllyn. LL23 7ST</p> <p>Parc Cenedlaethol Eryri Gofynnwyd i Huw Antur lunio cais i Gronfa Gymunedol Eryri am ail wynebu Llwybr Tegid.</p>

			<p>Cytunwyd i gynnig ymylon Nyrs y Fynwent fell le addas i blannu coed.</p> <p>Cyngor Gwynedd: Cytunodd is-bwyllgor Cynllun Ardal gyfarfod i drafod prosiect Lindsey Ellis Edwards.</p> <p>Cytunwyd i dynnu sylw at gerbydau'n parcio ar Lwybr Tegid</p>
5/10/21	Huw Antur 2279ix, Aelod o Bwyllgor y Neuadd	<p>Y Cynghorwyr Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (Is Gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn Evans Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Prys Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts Y Cyngorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Rheilffordd Llyn Tegid: Cytunwyd i lunio llythyr yn cwmpasu gwerthfawrogiad o'r croeso a'r cyfleoedd i gyd-weithio er budd y gymuned. Bydd y llythyr hefyd yn cyfeirio at bryderon am or-ddatblygu twristiaeth a all arwain at effaith andwyol ar gadernid ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Bydd ymateb Rheilffordd Llyn Tegid i'r llythyr yn llywio barn y Cyngor pan ddaw'r cais cynllunio gerbron, oherwydd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn bryderus iawn - pryder a gadarnhawyd wrth ddarllen y datganiadau yn yr Ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf /Awst. Disgwylir i'r ymateb ddod i law erbyn diwedd y mis.</p> <p>Lloches Bws Y Lôn: cytunwyd i ofyn am ddau bris ar gyfer y gwaith trwsio.</p> <p>Maesybandy Cytunodd y Clerc i geisio ail-sefydlu perthynas anffurfiol gyda swyddog Adra, a gofyn eto am dderbyn gwybodaeth am eiddo gwag lleol.</p> <p>Ariannol: Cymeradwywyd talu: Gwaith a nwyddau yn y toiledau: cyfanswm £194.07; Archwiliad Mewnol £216; paentio Pwmp y Llan £190.32; Cyflogau - yn unol â'r Cytundebau Trafodwyd taliadau i Gynghorwyr a chytunwyd fel Cyngor i beidio â chynnig taliad o £150 i Gynghorwyr. Cytunwyd i beidio â thalu am bresenoldeb. Cytunwyd i dalu costau teithio o .45c y filltir i'r sawl sydd yn cynrychioli'r Cyngor.</p> <p>Cymdeithas yr Iaith: Cytunwyd i roi cefnogaeth i ymgyrch i reoli'r farchnad dai.</p>

2/11/2021	Huw Antur 2301iii Aelod o Bwyllgor y Neuadd	<p>Y Cyngorwyr Beryl Hughes Griffiths (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts</p> <p>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Parc Cenedlaethol Eryri: Mae trefniadau mewn llaw i drafod effaith gor-ddatblygu twristiaeth gyda swyddogion. Cytunwyd i wahodd cynrychiolwyr o Langywer a'r Bala hefyd.</p> <p>Cytunwyd i roi'r hawl i Arwel Lloyd Jones wneud y trefniadau angenrheidiol parthed trwsio lloches bws Y Lôn.</p> <p>Mae Pwyllgor y Neuadd yn gwneud cais i gael offer technoleg i'r Neuadd. Cytunodd y Cyngor i anfon llythyr o gefnogaeth i hwn.</p> <p>Cytunwyd i gael sbec sydyn yn barod ar gyfer unrhyw grant yn y dyfodol a fyddai'n gwella arwynebedd Llwybr Tegid a/neu ymestyn y llwybr heibio i Wern Goch.</p> <p>Triathlon 2022 Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach gyda'r trefnwyr.</p>
7/12/21	Huw Antur Aelod o Bwyllgor y Neuadd	<p>Y Cyngorwyr Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts</p> <p>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Cytunwyd i ofyn i'r is bwyllgor Cynllun Ardal i baratoi briff ar gyfer gwneud asesiad o dwristiaeth ar hyd y blynyddoedd a datblygiadau sydd yn yr arfaeth, a'r polisiâu sydd eu hangen ar gyfer gwarchod y gymuned yn Llanuwchllyn / ym Mhenllyn.</p> <p>Llwybr Cwrteisi i Garth Bach. Diolchodd y Cyngorwyr i'r perchnogion am ganiatáu llwybr cwrteisi i Garth Bach ar gyfer mwynhau'r olygfa oddi yno. Cytunwyd i lunio rhestr o fusnesau lleol a gofyn i'r Clerc a'r Cyngorydd Alan Jones Evans drafod gyda'r rhain.</p> <p>Cytunwyd i'r taliadau: Cyflog y Clerc a CThEM; Cytundeb Glanhau Toiledau;SLCC £49.50; Gwefan y Cyngor £250; Gosod Plwg ar gyfer y Goeden Nadolig £132</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd i fancio ar lein; sefydlwyd trefn gwirio

			<ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd i brynu 2 gyfrifiadur ar gyfer defnydd y Clerc a'r Swyddog Ariannol ar gyfer gwneud gwaith Cyngor Cymuned Llanuwchllyn • Cytunwyd gyda'r Gyllideb ac argymhelliad y Praesept 2022-23 sef £14,000. • Crëwyd Cyllideb Cyfalaf dros gyfnod o 5 mlynedd ar gyfer prosiectau o fewn y flwyddyn a phrosiectau tymor hir. Nodwyd y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer lloches ym Maesypany <p>Cytunwyd gyda'r argymhellion i wneud cyfraniadau lleol fel a ganlyn:</p> <p>Adran Bentref yr Urdd £200 Eisteddfod y Llungwyn £100 Canolfan y Plase £100 Eisteddfod Cylch Penllyn £150 Theatr Bara Caws £100 Clwb Pêl Droed £200 Sioe Llanuwchllyn £100 CFFI Glannau Tegid £200 Eisteddfod Gen. Yr Urdd £100 Cylch Meithrin Llanuwchllyn £100</p> <p>Cyfraniad arbennig: Cyfarpar ar gyfer y Neuadd £1000 allan o gyfalaf 21/22 neu 22/23</p> <p>Teulu Gwalia £250 * <i>Wedi ei gytuno eisoes</i> CFFI Meirionnydd £200* <i>wedi ei gyfrannu yn barod</i> Llên y Llannau £100* <i>wedi ei gyfrannu yn barod</i> *****</p> <p>Eisteddfod Powys 2021 £100 yn 2019 (gydag addewid o £100 yn 2021) <i>i'w ystyried pan/os daw cais amdano</i></p>
--	--	--	--

			<p>Cytunwyd i anfon at y meddygon a staff y Feddygfa i ddiolch iddynt am eu gwaith clodwiw yn brechu ardalwyr Penllyn rhag y Covid a'r fflw.</p> <p>Cymeradwywyd cais NP5/71/2G sef garej Penrhiwdwrch</p>				
4/1/2022	<p>Huw Antur: Dathlu pen-blwydd 100 yr Urdd Cais cynllunio NP5/71/L343A Gosod sied ardd Ysgubor Glandŵr, Llanuwchllyn Cais cynllunio NP5/71/487 Cwt Cymunedol, Llanuwchllyn.</p>	<p>Y Cynghorwyr Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Triathlon: CYTUNWYD na all y Cyngor gefnogi cau'r ffordd A494.</p> <p>Y Fynwent: Derbyniwyd diweddariad Polisi'r fynwent a chytunwyd i ychwanegu ein bod yn bwriadu gwneud gwaith dros gyfnod i newid i fod yn fynwent lawnt. Cytunwyd na ddylid gosod carreg heb gael caniatâd; disgwylir derbyn dyluniad gyda mesuriadau manwl ymlaen llaw.</p> <p>Cynllunio: NP5/71/L343A Gosod sied ardd Ysgubor Glandŵr, Llanuwchllyn. Cytunwyd i holi'r swyddog yn y Parc pam fod cais am sied wedi dod gerbron. Y pryder yw y byddai'r sied yn newid i fod yn uned gwyliau.</p> <p>NP5/71/487 Cwt Cymunedol, Llanuwchllyn - cymeradwywyd</p> <p>NP5/53/576 Tir yn Y Bala – cytunwyd i ofyn am estyniad hyd nes y derbynnir asesiad Partneriaeth Penllyn ar effaith datblygiad twristiaeth ar Benllyn.</p>				
1/2/2022		<p>Presennol: Y Cynghorwyr Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)</p>	<p>Cytunwyd y gellid rhoi cyhoeddiad byr yn <i>Pethe Penllyn</i> gan gynnwys cyfeiriad at y wefan dolen i'r wefan. Gellid rhoi hwn ar fb hefyd.</p> <p>Pwyllgor Dathliadau'r Urdd yn 100 oed. Cytunwyd fod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gynnal Gŵyl ar ddechrau'r haf.</p> <p>Cytunwyd i ofyn am brisiau symud lleoliad y giât, gan roi gwybod i swyddogion lleol Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd .</p> <p>Cymeradwywyd y taliadau canlynol:</p> <table> <tr> <td>Martin Jones - ffrâm coeden Nadolig</td> <td>£120.00</td> </tr> <tr> <td>Siop Celt - Coeden Nadolig y Gilfach</td> <td>£60.00</td> </tr> </table>	Martin Jones - ffrâm coeden Nadolig	£120.00	Siop Celt - Coeden Nadolig y Gilfach	£60.00
Martin Jones - ffrâm coeden Nadolig	£120.00						
Siop Celt - Coeden Nadolig y Gilfach	£60.00						

			<p>CCF – nwyddau toiledau £20.50 Cyfraniadau cymunedol 2020-21 £1350.00 Taliadau o dan Gytundebau: Cyflog, CThEM, costau swyddfa, Glanhau</p> <p>Cymeradwywyd y bwriad i godi mast yng Nghynllwyd.</p> <p>Triathlon 2022 - Gofynnwyd i'r Clerc ddatgan siom fod y cyhoeddiad wedi ei wneud a'u holi am y prosesau a gymerwyd.</p>																						
1/3/22	Dewi Wyn Jones a Alwyn E Jones ym mater 2349iii Cyfraniadau Cymunedol (aelodau o bwyllgor Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn)	Presennol: Y Cynghorwyr Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones ,Alwyn Roberts, Huw P Roberts Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)	<p>Cymeradwywyd taliadau fel a ganlyn:</p> <p>Nwyddau Nadolig £255.98 CCF- Nwyddau toiledau £59.73 Trwydded Zoom (Bala ad-dalu hanner)£109.18 CThEM £116.00 Cytundebau £325.04</p> <p>Cytunwyd i wneud y Cyfraniadau Cymunedol fel a ganlyn, gan fynegi wrth ymgeiswyr y bwriad i fynd yn ôl i'r drefn arferol ar gyfer ceisiadau Chwefror 2021.</p> <table> <tr> <td>Clwb Pel Droed</td> <td>£200.00</td> </tr> <tr> <td>Plase/Cantref</td> <td>£100.00</td> </tr> <tr> <td>CFFI Meirion</td> <td>£250.00</td> </tr> <tr> <td>Bara Caws</td> <td>£100.00</td> </tr> <tr> <td>EisteddfoLlungwyn</td> <td>£100.00</td> </tr> <tr> <td>Adran Bentref</td> <td>£200.00</td> </tr> <tr> <td>Cylch Penllyn</td> <td>£150.00</td> </tr> <tr> <td>Sioe</td> <td>£100.00</td> </tr> <tr> <td>Glannau Tegid</td> <td>£200.00</td> </tr> <tr> <td>Cylch Meithrin</td> <td>£100.00</td> </tr> <tr> <td>Llen y Llannau</td> <td>£100.00</td> </tr> </table>	Clwb Pel Droed	£200.00	Plase/Cantref	£100.00	CFFI Meirion	£250.00	Bara Caws	£100.00	EisteddfoLlungwyn	£100.00	Adran Bentref	£200.00	Cylch Penllyn	£150.00	Sioe	£100.00	Glannau Tegid	£200.00	Cylch Meithrin	£100.00	Llen y Llannau	£100.00
Clwb Pel Droed	£200.00																								
Plase/Cantref	£100.00																								
CFFI Meirion	£250.00																								
Bara Caws	£100.00																								
EisteddfoLlungwyn	£100.00																								
Adran Bentref	£200.00																								
Cylch Penllyn	£150.00																								
Sioe	£100.00																								
Glannau Tegid	£200.00																								
Cylch Meithrin	£100.00																								
Llen y Llannau	£100.00																								

--	--	--	--